

Ffasiwn

Briff Aseiniad Prosiect yr Haf

Cod y Modiwl

Teitl y Modiwl

Prosiect Cyn
Cyrraedd

Aseiniad Prosiect yr Haf

Blwyddyn
Academaidd

Semester

2023/24

Cyn-semester/tymor un

E-bost Arweinydd y Prosiect

adavies@cardiffmet.ac.uk

Manylion Aseu

Teitl y prosiect: *Ysbrydoliaeth pensaernïol
organig neu gerfluniol*

Tal.

Pwysoliad

WRIT1

Dd/B

Briff:

Eich thema ymchwil haf yw *ysbrydoliaeth bensaernïol organig neu gerfluniol*. Manteisiwch ar ei botensial i fynegi'n greadigol drwy ddatblygu cysyniadau a syniadau anarferol y gellir eu trosi'n ymchwil ysbrydoledig a datblygu dylunio. Archwiliwch ysbrydoliaeth sy'n deillio o elfennau ffisegol pensaernïaeth, cerflunwaith, graffeg trefol, llinellau, onglau ac adeiladu. Ymchwiliwch i sut mae arwynebau a deunyddiau'n cael eu trawsnewid a sut y gall gorchuddion treuliedig ac wedi'u paentio ac arwynebau/deunyddiau organig greu patrwm ffabrig ffasiwn newydd unigryw.

Er mwyn i chi deimlo'n ysbrydoledig a chreadigol dros yr haf, gofynnir i chi gadw cyfnodolyn/llyfr braslunio ymchwil gweithredol a ddylai fod yn llawn delweddau cyffrous ac ysbrydoledig o'ch thema: Ysbrydoliaeth pensaernïol organig neu gerfluniol.

Bydd eich cyfnodolyn yn sail i'ch tymor astudio cyntaf, felly gwnewch yn siŵr ei fod yn greadigol ac yn llawn egni - buddsoddwch eich amser nawr, cyn i'r tymor ddechrau.

Er nad ydym yn disgwyl i chi lenwi llyfr braslunio cyfan, rydym yn disgwyl gweld ystod dda o ffynonellau ymchwil o safon. Mae lluniadu yn elfen hanfodol o arfer dylunwyr. Dylech ddatblygu eich syniadau dylunio trwy ystod lawn o brosesau 'lluniadu' e.e., collage, peintio, gwneud marciau, rhwbiadau, ffotograffiaeth ac ati. Gallwch 'dynnu llun' yn ddigidol, ond ni ddylai hyn fod yn fwy na 50% o'ch allbwn.

Nodau

- Datblygu ymchwil o'r thema ysbrydoliaethau *pensaernïol organig neu gerfluniol* a fydd yn sail i brosiectau y byddwch yn eu datblygu yn y tymor cyntaf.
- Cyfuno syniadau o 2D i 3D (lluniad arsylwadol, ffotograffiaeth a samplu) o'ch thema dewisol.
- Creu 'Llyfrgell Ddeunyddiau' bersonol – o ddeunyddiau sydd wedi'u colli, eu darganfod, eu casglu a'u hailgylchu.
- Datblygu corff o ymchwil cyd-destunol a fydd yn cefnogi eich prosiect yn y tymor cyntaf.

Canlyniadau

Cadwch ddyddiadur ymchwil gweledol a ddylai gynnwys y canlynol:

1. Ymchwiliwch i ddelweddau, 'lluniadu'/ffotograffiaeth mewn ymateb i'ch ymchwil a'ch thema gyffredinol (o leiaf 10 tudalen rhydd neu tudalen llyfr braslunio o leiaf A4)
2. Samplau (o leiaf 10 maint A5) sy'n archwilio arwynebau 2D a 3D trwy bwytho, trin, plygu ac ati. Gall y rhain fod yn gymysgedd neu ffabrig a phapur.
3. Dechreuwch greu 'Llyfrgell Deunyddiau' bersonol o ddeunyddiau ac effemera sydd wedi'u colli, eu darganfod, eu casglu a'u hailgylchu, a gasglwyd o amgylch y tŷ, yr ardd, y sied, biniau ailgylchu ac yn eich ardal leol. Gallai eich 'Llyfrgell Deunyddiau' gynnwys amrywiaeth o bapurau, plastigion (post-becynnu, lapio bwyd, darnau wedi'u torri o boteli ac ati) Ffoils, ewynnau, rwber (bandiau elastig ac ati) neilonau, metelau, cardbord, hen ddillad, tecstilau ac ati sydd wedi'u hailgylchu a'u hailddefnyddio.

Mae **Lluniadu a Samplu** yn elfen hanfodol ar **BOB** cam o friff yr haf hwn: Rhaid i chi ddatblygu eich dyluniad/syniadau trwy ystod lawn o ddulliau lluniadu, paentio a gwneud marciau (digidol a/neu wedi'u rendro â llaw); a disgwylir iddo dynnu trwy gydol gwyliau'r haf. Lluniadwch y tu mewn a thu allan i'r llyfr gan arbrofi ag arwynebau, prosesau, technegau a chyfryngau.

A fyddech cystal â dechrau casglu deunyddiau a fyddai fel arfer yn cael eu taflu. Bydd hyn yn allweddol ar gyfer eich prosiect cyntaf.

Artistiaid a Dylunwyr

Louise Bourgeois, Matty Bovan, Michael Brennand-Wood, David Batchelor, Nick Cave, Hussein Chalayan, John Chamberlain, Christo, Tony Cragg, Susie Freeman, Frank Gehry, Craig Green, Zaha Hadid, Mona Hatoum, Thomas Heatherwick, Rei Kawakubo, Yayoi Kusama, Martin Margiela, Cornelia Parker, Reiko Sudo (Nuno Corporation), Sarah Sze, Lois Walpole, Junya Watanabe, Alison Willoughby, Anne Wilson, Selgas Cano, Vicki Fong, Celia Pym, Rick Owens

Pethau i'w cyflawni:

Rhaid i'ch cyflwyniad prosiect gynnwys y canlynol:

1. Ymchwiliwch i ddelweddau, 'lluniadu'/ffotograffiaeth mewn ymateb i'ch ymchwil a'ch thema gyffredinol (o leiaf 10 tudalen rhydd neu tudalen llyfr braslunio o leiaf A4)
2. Samplau (o leiaf tua 10 maint A5) sy'n archwilio arwynebau 2D a 3D trwy bwytho, trin, plygu ac ati. Gall y rhain fod yn gymysgedd neu ffabrig a phapur.
3. Dechrau creu 'Llyfrgell Ddeunyddiau' bersonol o ddeunyddiau sydd wedi'u colli, eu darganfod, eu casglu a'u hailgylchu.

Cyflwyniad

A pheidiwch ag anghofio cynnwys y canlynol:

4. Eich enw: Alison Davies
5. Teitl eich cwrs: BA Hons Fashion Design
6. Teitl a Dyddiad y Prosiect: Prosiect yr Haf 2023
7. **Dewch â'r prosiect gyda chi ar gyfer dechrau'r Wythnos Groeso ddydd Llun 18 Medi.**

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ar sut i gwblhau'r dasg hon, anfonwch e-bost at ein tîm gweinyddol ysgol yn nodi enw'r cwrs yr ydych ar fin ymuno ag ef a'r cwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r cyfeiriad e-bost canlynol:

csadadmin@cardiffmet.ac.uk

Egluro termau academaidd neu dechnegol:

Pensaernïol organig: math o ddylunio pensaernïol lle mae adeiladau'n cael eu hysbrydoli gan, wedi'u hadeiladu o gwmpas, ac yn ymdoddi i'w hamgylchedd naturiol. Bathwyd y term gan y pensaer Americanaidd Frank Lloyd Wright.

Ysbrydoliaeth cerfluniol. Dyluniadau tri dimensiwn a wneir gan un o bedair proses sylfaenol: cerfio, modelu, castio, adeiladu.

Braslun y cysyniad: Braslun yn darlunio cysyniad neu syniad, yn aml gyda sylwadau anodedig ategol.

Nodiadau: Rhestr Offer

Fashion students need to be fully aware that when undertaking a fashion design degree, that investment in appropriate, industry standard equipment will be necessary.

The following list of essentials is a good place to start building your own Fashion Designer's Toolkit to support your pattern drafting and clothing construction studies:

- A4 quality sketchbooks
- A range of mixed quality papers including cartridge paper, kraft paper, newsprint, tracing paper
- A4 layout pad
- Fine liner pens in different weights e.g., 0.1, 0.3, 0.5
- Pro-markers - flesh tones are a must!
- Range of pencil weights from H - B
- Sketching media such as coloured pencils, pastels etc.
- Sewing kit including needles, threads, embroidery scissors, pincushion
- Vanishing cloth markers and/or tailor's chalk
- Scissors: invest in two pairs of good scissors, one for paper and one for fabric; you are discouraged from using the same pair of scissors for both!
- Glues: Paper and Fabric
- Tapes: cello tape, masking tape, double-sided, 'magic' tape
- Carrying device to keep all you kit in one place (not too big!)

N.B. You may have a lot of this already from previous studies so please do not buy brand new things if you do not need them. You can also source **sustainably** by visiting charity shops, checking online resell sites such as Facebook Marketplace or eBay and asking friends and family.

Specialist Fashion equipment and supplies can be purchased directly from Morplan at www.morplan.com

- Pattern Master in **metric*** code 41541
- Tailors Shears* code 56110
- Analogical Tape Measure* code 43278
- Pattern notcher tool code 41208
- Tracing wheel codes 41195 / 41209
- Quick unpicker/seam ripper code 42902
- Snips code 54891
- Dressmaking Pins code 43451
- Garment bags clear pack of 5 code 89222

*these are essential tools and will serve you well beyond your degree!

N.B. Many of these items can also be purchased from other online retailers, and again, if you already have these items (or similar) you do not need to buy them again.

CARDIFF
SCHOOL *of* ART & DESIGN